Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 08.07.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## AMAETHYDDIAETH: Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy, fydd y prif ffynhonnell cymorth Llywodraeth Cymru i ffermwyr yng Nghymru yn y dyfodol i gefnogi cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, gwella bioamrywiaeth, a chryfhau'r economi wledig. Gellir gweld datganiad y cabinet ar:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyhoeddi-cynllun-ffermio-cynaliadwy-cynigion-bras-ar-gyfer-2025

## ARIANNU: Grant Dechrau Busnes i Bobl Ifanc

Bydd y Grant Dechrau Busnes i Bobl Ifanc, o hyd at £2,000 ac ar gael hyd at 2025, yn galluogi pobl ifanc sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i ddechrau eu busnes eu hunain, creu menter gymdeithasol, dod yn hunangyflogedig, yn weithiwr llawrydd neu'n entrepreneur cymdeithasol yng Nghymru. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/bigideas/cy/grant-dechrau-busnes-pobl-ifanc

## CYMORTH: Mae Cyngor Gwynedd yn ehangu'r tîm cymorth busnes

Rydym yn chwilio am yr unigolyn iawn i ddod yn Swyddog Ymgysylltu Busnesau Lleol newydd, a helpu i gefnogi ein cymuned fusnes rhagorol. Y dyddiad cau yw 10:00am 28 Gorffennaf 2022. Am fwy o fanylion am y swydd, gan gynnwys sut i ymgeisio, ewch i:

https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/SwyddiArLein/cy/Swydd/Manylion/22910

## YNNI: Lleihau Costau Ynni a'r Defnydd o Ynni ar gyfer eich busnes

Gall busnesau canolig i fawr ddarganfod beth medrant ei wneud i leihau costau ynni, o leihau'r defnydd i ddod o hyd i'r tariff ynni gorau, yn un o'r sesiynau a gynhelir drwy gydol Gorffennaf, Awst a Medi 2022 gan Longevity Zero. Mae Longevity Zero yn ymgynghoriaeth ynni a charbon sy'n darparu gwasanaethau rheoli ynni a sero net i sefydliadau yn fyd-eang. I gofrestru ar gyfer un o'r sesiynau, ewch i:

https://bit.ly/3yQ7GfP

## IECHYD & DIOGELWCH: Gwybodaeth diweddaraf gan HSE

- Mae canllawiau wedi'u diweddaru gan yr HSE ynghylch defnyddio ysgolion ac ysgolion plygu yn ddiogel yn y gwaith i'w gweld ar: https://www.hse.gov.uk/work-at-height/ladders/index.htm

- Mae canllawiau wedi'u diweddaru ar ddefnyddio PPE (Cyfarpar Diogelu Personol) i reoli risgiau yn y gwaith i'w gweld ar: https://www.hse.gov.uk/ppe/index.htm
  Cynhelir gweminar am ddim sy'n egluro sut mae Rheoliadau PPE wedi newid, yn ogystal â thrafod diogelwch ymddygiadol, ar 18 Gorffennaf 2022 (12:00pm-1:00pm). I gofrestru, ewch i: https://bit.ly/3AQSZuH

- Mae arweiniad i drefnwyr digwyddiadau ar sut i gynllunio, rheoli a monitro digwyddiadau, i sicrhau nad yw gweithwyr, a'r cyhoedd sy'n ymweld, yn agored i risgiau iechyd a diogelwch ar gael ar: https://www.hse.gov.uk/event-safety/index.htm

## TECH: Arddangos Datrysiad SMART – Digwyddiad Travelperx 13 Gorffennaf 2022

Mae systemau Tref SMART – sy'n darparu gwybodaeth am sut a phryd y mae cwsmeriaid yn ymweld â'r stryd fawr – eisoes ar waith mewn nifer o drefi a phentrefi lleol, gyda mwy ar y ffordd. Cynhelir datrysiad Tref SMART ar-lein, yn cynnwys Travelperx, datrysiad teyrngarwch sy'n cymell teithio mwy gwyrdd, ar 13 Gorffennaf 2022 (12:00pm-1:30pm). Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3IpT1v3

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru